

Cefnogaeth gymunedol SP Energy Networks

Canllaw byr ar Astudiaethau Dichonoldeb

Canllaw lefel uchel ar astudiaethau
dichonoldeb ar gyfer grwpiau ynni cymunedol.



Gwybodaeth am y canllaw hwn

Gwybodaeth am SP Energy Networks

Mae SP Energy Networks (SPEN) yn Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO). Mae SP Energy Networks yn sicrhau bod trydan yn llifo i gartrefi ac i fusnesau drwy ein rhwydwaith o linellau uwchben a cheblau o dan y ddaear. Yn yr Alban, mae SPEN yn rheoli'r rhwydwaith dosbarthu trydan yn y rhanbarthau canol a deheuol, gan gynnwys dinasoedd mawr fel Glasgow a Chaeredin, yn ogystal ag ardaloedd gwledig fel Gororau'r Alban a Dumfries a Galloway. Yng Nghymru a Lloegr, mae SP Energy Networks yn gweithredu o dan drwydded SP Manweb, sy'n cwmpasu Gogledd Cymru, Glannau Mersj, Swydd Gaer, Gogledd Swydd Amwythig a Lerpwl. Yn 2025, daeth Electricity Northwest (ENWL) yn un o'r pedwar busnes rhwydwaith trydan rheoledig sy'n eiddo i SP Energy Networks yn y DU. SP Electricity North West, fel y mae'n cael ei alw erbyn hyn, sy'n gweithredu'r rhwydwaith dosbarthu trydan ar draws gogledd-orllewin Lloegr. Mae'n cwmpasu Manceinion Fwyaf, Swydd Gaerhirfryn a Cumbria, yn ogystal â rhannau o Swydd Gaer a Swydd Derby.

Gwybodaeth am Reheat

Mae Reheat yn dîm o ymgynghorwyr, dylunwyr, rheolwyr prosiect a pheirianwyr mewnlol sy'n darparu atebion gwres a phŵer adnewyddadwy i gleientiaid sydd â gofynion ynni mawr a chymhleth. Rydym yn gweithio ledled y DU ac yn rhyngwladol mewn amrywiaeth eang o ddiwydiannau a sectorau, gan gynnwys gweithgynhyrchu, lletygarwch, adeiladau ac ystadau hanesyddol, awdurdodau lleol, tai cymdeithasol, addysg a chymunedau.

Cydnabyddiaethau

Hoffem fynegi ein gwerthfawrogiad diffuant i bawb a gyfrannodd at gwblhau'r adroddiad hwn yn llwyddiannus.



Diben y canllaw hwn

Gall llywio drwy'r broses o gomisiynu astudiaeth ddichonoldeb ymddangos yn gymhleth pan fyddwch yn cynllunio prosiectau dan arweiniad y gymuned yn y sector ynni.

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i ddarparu eglurder a symleiddio'r broses ar gyfer grwpiau ynni cymunedol, gan gynnig dull strwythuredig o'r camau cynllunio cychwynnol i lwyddiant hirdymor. Amlinellir camau allweddol i asesu hyfywedd eich prosiect.

Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys:

- Diffinio cwmpas a phwrpas y prosiect
- Sicrhau'r safle a manylion perchnogaeth
- Cynnal astudiaethau dichonoldeb cynhwysfawr
- Asesu parodrwydd ac ymgysylltiad cymunedol
- Ymchwilio i ganiatadau cynllunio a chyfyngiadau rheoleiddiol
- Nodi ffynonellau cyllid a strategaethau ariannol
- Rheoli risgiau a dibyniaethau
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau cyfathrebu tryloyw
- Cynllunio ar gyfer llywodraethu hirdymor a chynaliadwyedd gweithredol

Mae'r ffocws ar ddarparu cyngor ymarferol y gellir gweithredu arno i gefnogi prosiectau ynni sy'n cael eu gyrru gan y gymuned, gan sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gynaliadwy yn ariannol, ac yn cyd-fynd â nodau ynni lleol ac ehangach.

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at grwpiau ynni cymunedol ledled y DU sydd â diddordeb mewn comisiynu astudiaeth ddichonoldeb.

Nod y canllaw hwn yw darparu sylfaen ar gyfer cynllunio gwybodus a chyflawni effeithiol.

Mae manylion y camau a'r ystyriaethau allweddol sy'n gysylltiedig â chomisiynu astudiaeth ddichonoldeb wedi'u nodi drwyddi draw. Er eu bod wedi'u cyflwyno mewn trefn resymegol, mae pob prosiect yn wahanol, a gall camau ddigwydd mewn trefn wahanol neu redeg ochr yn ochr â'i gilydd. Beth bynnag fo'r achos, mae pob cam yn bwysig i lwyddiant y prosiect.

Beth yw astudiaeth ddichonoldeb?

Mae astudiaeth ddichonoldeb yn asesiad strwythuredig sy'n helpu cymuned, sefydliad neu grŵp i ddeall a yw syniad neu brosiect arfaethedig yn realistig, yn gyraeddadwy ac yn werth chweil cyn ymrwymo amser, arian neu adnoddau sylweddol.

Pam cynnal astudiaeth ddichonoldeb?

Mae astudiaethau dichonoldeb yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn helpu cymunedau i wneud penderfyniadau gwybodus cyn ymrwymo cryn amser neu arian i brosiect. Drwy archwilio ffactorau ymarferol, ariannol, technegol a chymdeithasol, gall astudiaeth ddichonoldeb dynnu sylw'n gynnar at heriau posibl, costau cudd, neu alw, gan helpu i atal camgymeriadau costus. Maent hefyd yn darparu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am gyllid, gan ddangos bod syniad yn ymarferol ac wedi'i seilio ar wir angen cymunedol. Mae astudiaethau dichonoldeb yn caniatáu cymharu gwahanol opsiynau, egluro gofynion lleol, asesu cynaliadwyedd hirdymor, a nodi risgiau y mae angen eu rheoli. Yn bwysig, maent yn meithrin hyder ymysg rhanddeiliaid ac yn cynnig set glir o argymhellion a'r camau nesaf.





Acronymau a ddefnyddir yn y testun

Wrth i chi lywio drwy wahanol adrannau y canllaw hwn, rydym wedi llunio rhestr gynhwysfawr o'r holl acronymau a ddefnyddir drwyddi draw. Mae llawer o'r termau hyn yn cael eu hegluro'n fanylach yn ein hadran geirfa.

Acronym	Ei ystyr
AIA	Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol - proses ffurfiol i asesu effeithiau amgylcheddol posibl prosiect
DNO	Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu - y cwmni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a gweithredu'r rhwydwaith trydan lleol
DPA	Dangosydd Perfformiad Allweddol - mesur sy'n dangos pa mor effeithiol y mae sefydliad, tîm neu unigolyn yn cyflawni amcanion busnes pwysig
PDR	Hawliau Datblygu a Ganiateir - rheoliadau cynllunio sy'n caniatáu i fathau penodol o ddatblygiadau fynd rhagddynt heb fod angen caniatâd cynllunio llawn
ROI	Enillion ar Fuddsoddiad - mesur o'r enillion neu'r golled ariannol o fuddsoddiad, wedi'i fynegi fel canran
SPEN	SP Energy Networks - gweithredwr y rhwydwaith ardal

Cynnwys

Gwybodaeth am y canllaw hwn	2
Gwybodaeth am SP Energy Networks	2
Gwybodaeth am Reheat	2
Cydnabyddiaethau	2
Diben y canllaw hwn	3
Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?	3
Beth yw astudiaeth ddichonoldeb?	3
Pam cynnal astudiaeth ddichonoldeb?	4
Acronymau a ddefnyddir yn y testun	4
Y rhestr wirio	6
Risg a Heriau	7
Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb	
Cam 1: Egluro'r Diben	8
Cam 2: Pennu Cwmpas yr Astudiaeth	9
Cam 3: Asesu Parodrwydd Cymunedol	10
Cam 4: Mapio Rhanddeiliaid	11
Cam 5: Pennu Gofynion Dichonoldeb	12
Cam 6: Diffinio Meini Prawf Llwyddiant	13
Cam 7: Casglu Gwybodaeth Gefndir	14
Cam 8: Cynllunio Cyllideb a Chyllid	15
Cam 9: Nodi Risgiau a Chyfyngiadau	16
Cam 10: Cynllunio Cyfranogiad, Defnyddio Canfyddiadau ac Ystyriaethau Hirdymor	17
Geirfa	18
Adnoddau Ychwanegol	19

Y rhestr wirio

Cam 1: Egluro'r Diben

- Diffinio'r broblem/angen a phwy sy'n elwa.
- Paratoi datganiad clir o ddiben y prosiect.

Cam 2: Pennu Cwmpas yr Astudiaeth

- Nodi cwestiynau allweddol y mae'n rhaid i'r astudiaeth ddichonoldeb eu hateb.
- Sefydlu ffiniau (lleoliad, gweithgareddau, cyllideb).
- Nodi'r allbynnau/cyflawniadau gofynnol.

Cam 3: Asesu Parodrwydd Cymunedol

- Mesur diddordeb y gymuned a chapasiti sefydliadol.
- Adolygu data, arolygon neu adroddiadau blaenorol sy'n bodoli eisoes.
- Cydnabod bod "ddim yn ddichonadwy" yn ganlyniad derbyniol.

Cam 4: Mapio Rhanddeiliaid

- Nodi rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Nodi pwy sydd â dylanwad a phwy allai hyn effeithio arnynt.
- Penderfynu pwy y mae'n rhaid ymgynghori â nhw'n gynnar.

Cam 5: Pennu Gofynion Dichonoldeb

- Cadarnhau a oes angen dadansoddiadau technegol, ariannol, economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol.
- Nodi unrhyw gyfyngiadau cynllunio, cyfreithiol neu amgylcheddol.

Cam 6: Diffinio Meini Prawf Llwyddiant

- Cytuno ar sut beth yw llwyddiant.
- Nodi pethau y mae'n rhaid eu cael, pethau y mae'n ddymunol eu cael, a phethau tyngedfennol.

Cam 7: Casglu Gwybodaeth Gefndir

- Casglu data, mapiau, arolygon a thystiolaeth berthnasol.
- Cadarnhau manylion y safle/perchnogaeth lle bo hynny'n berthnasol.
- Casglu astudiaethau blaenorol, cynlluniau, neu wybodaeth am gostau/cyllid.

Cam 8: Cynllunio Cyllideb a Chyllid


- Amcangyfrif cost astudiaeth ddichonoldeb.
- Nodi ffynonellau cyllido a chyfraniadau o fath arall.
- Gosod meini prawf i asesu dyfynbrisiau ymgynghorwyr.

Cam 9: Nodi Risgiau a Chyfyngiadau

- Rhestru risgiau a dibyniaethau posibl.
- Nodi materion cyfreithiol, cynllunio, amgylcheddol neu dreftadaeth.

Cam 10: Cynllunio Cyfranogiad, Defnyddio Canfyddiadau ac Ystyriaethau Hirdymor

- Penderfynu sut bydd y gymuned a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys.
- Nodi pwy fydd yn defnyddio canfyddiadau'r astudiaeth a sut y byddant yn cael eu rhannu.
- Paratoi ar gyfer canlyniadau cadarnhaol neu negyddol.
- Ystyried llywodraethiant hirdymor, partneriaid, cynaliadwyedd a chapasiti gweithredu.



Risg a heriau

Mae nifer o risgiau a heriau'n gysylltiedig ag ymgymryd ag unrhyw brosiect cymunedol.

Mae'n werth tynnu sylw at y rhain yn gynnar, er mwyn sicrhau bod modd rhoi mesurau lliniaru neu gynlluniau priodol ar waith i leihau unrhyw effaith y gallent ei chael ar ganlyniadau'r prosiect.

Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Risgiau Ariannol

- Cyllidebau'n Gor-redeg: Gall costau fod yn uwch na'r amcangyfrifon cychwynnol oherwydd treuliau annisgwyl.
- Diffygion Cyllid: Efallai na fydd grantiau neu roddion yn cael eu gwireddu yn ôl y disgwyl.

2. Heriau Ymgysylltu â'r Gymuned a Rhanddeiliaid

- Cyfranogiad Isel: Aelodau o'r gymuned efallai na fyddant yn ymgysylltu yn ôl y disgwyl.
- Gwrthdaro rhwng buddiannau: Efallai y bydd gan wahanol grwpiau flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.
- Gwrthwynebiad i Newid: Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn gwrthwynebu syniadau newydd.

3. Risgiau Llywodraethu a Rheoli

- Cynllunio Gwael: Diffyg amcanion, amserlenni neu atebolrwydd clir.
- Bylchau mewn Arweinyddiaeth: Arweinyddiaeth ddibrofiad neu anghyson.
- Oedi wrth Wneud Penderfyniadau: Gall oedi cyn cymeradwyo arafu cynnydd.

• Heriau Gweithredol a Logistaidd

- Cyfyngiadau Adnoddau: Mynediad cyfyngedig at staff medrus neu ddeunyddiau.
- Cymhlethdod Cydlynu: Gall nifer o bartneriaid a gwirfoddolwyr gymhlethu llif gwaith.
- Cydymffurfiaeth Reoleiddiol: Delio â thrwyddedau,, gofynion cyfreithiol neu safonau diogelwch.

4. Risgiau Cymdeithasol a Diwylliannol

- Materion Tegwch: Risg o eithrio grwpiau ymylol.
- Ymddiriedaeth Gymunedol: Gall methu â meithrin neu gynnal ymddiriedaeth amharu ar y prosiect.

5. Ffactorau Amgylcheddol ac Allanol

- Tywydd neu ddigwyddiadau eithafol: Gall amharu ar amserlenni.
- Ansefydlogrwydd Gwleidyddol: Newidiadau mewn polisi neu lywodraethu lleol.

Mae lliniaru risgiau mewn prosiectau cymunedol yn gofyn am ddull rhagweithiol a chynhwysol. Gellir rheoli risgiau ariannol drwy ddatblygu cyllideb sy'n cynnwys cronfeydd wrth gefn, ar yr un pryd ag arallgyfeirio ffynonellau cyllid drwy grantiau, rhoddion a nawdd. Gellir defnyddio archwiliadau ariannol i helpu i gynnal tryloywder a rheolaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â heriau ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae ymgynghori cynnar a pharhaus yn hanfodol. Dylid sefydlu sianeli cyfathrebu clir, a rhoi strategaethau datrys gwrthdaro ar waith i gydbwysu buddiannau sy'n cystadlu â'i gilydd. Gellir lleihau risgiau llywodraethu drwy ddiffinio rolau a chyfrifoldebau, gosod amcanion mesuradwy, ac olrhain cynnydd a sicrhau atebolrwydd.

Mae heriau gweithredol yn aml yn deillio o gyfyngiadau adnoddau pan fydd prosiectau'n dibynnu ar wirfoddolwyr, a materion cydlynu. Gellir lliniaru'r rhain drwy greu cynllun adnoddau ac amserlenni cyfarfodydd cydlynu rheolaidd. Mae risgiau cymdeithasol yn gofyn am sensitifrwydd a chynhwysiant; mae ymgysylltu ag arweinwyr lleol, a dylunio strategaethau sy'n cynnwys grwpiau ar y cyrion, yn gamau allweddol.

Mae ffactorau allanol fel newidiadau amgylcheddol neu wleidyddol yn galw am amserlenni hyblyg a chynlluniau ymateb brys, ochr yn ochr â monitro datblygiadau a allai effeithio ar y prosiect.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 1: Egluro'r Diben

Diffinio'r Broblem/Angen a Phwy sy'n Elwa

Cam cyntaf unrhyw astudiaeth ddichonoldeb yw diffinio'n glir y broblem neu'r angen y mae'r prosiect yn ceisio mynd i'r afael â hi. Bydd dealltwriaeth gadarn o'r broblem yn helpu i gysoni nodau'r prosiect ag anghenion a disgwyliadau'r gymuned. Ystyriwch:

- **Pa fater neu her benodol y mae'r gymuned neu'r grŵp targed yn ei hwynebu?**

Gallai hyn amrywio o ddiffyg adnoddau ynni lleol, costau ynni cynyddol, seilwaith sy'n heneiddio, neu fylchau mewn gwasanaethau cymunedol.

- **Pwy yw buddiolwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol y prosiect?**

Amlinellwch y grwpiau a fydd yn elwa'n fwyaf uniongyrchol o'r prosiect, gan gynnwys y prif randdeiliaid. Ar gyfer prosiectau cymunedol, gall hyn gynnwys trigolion lleol, busnesau a sefydliadau.

Bydd deall cwmpas llawn y mater yn caniatáu atebion wedi'u targedu'n well a chyfathrebu'n gliriach â rhanddeiliaid a chyllidwyr.

Paratoi Datganiad Cenhadaeth Glir

Datganiad cenhadaeth yw datganiad o pam fod angen y prosiect a beth y mae'n gobeithio ei gyflawni. Dylai fod yn glir, yn benodol ac yn canolbwyntio ar weithredu, gan ddarparu trywydd ar gyfer datblygu'r prosiect.

- **Beth yw nod craidd y prosiect?**

Er enghraifft, ai'r nod yw lleihau'r defnydd o ynni, cynyddu annibyniaeth ynni, gwella gwasanaethau iechyd cymunedol, neu hybu twf economaidd mewn sector penodol?

- **Pa effaith neu ganlyniad mesuradwy mae'r prosiect yn ceisioeu cyflawni?**

Meddyliwch am ganlyniadau fel arbed costau, lleihau carbon, ymgysylltu'n well â'r gymuned, neu fwy o gydnerthedd lleol. Po gliriaf y canlyniad, yr hawsaf fydd asesu dichonoldeb yn y camau canlynol.

Bydd y datganiad o genhadaeth hwn yn sylfaen ar gyfer gweddill yr astudiaeth ddichonoldeb, gan gadw'r ffocws ar fynd i'r afael â'r broblem ddiffiniedig a diwallu anghenion y gymuned.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 2: Pennu Cwmpas yr Astudiaeth

Nodi Cwestiynau Allweddol y mae'n rhaid i'r Astudiaeth Ddichonoldeb eu Hateb

Mae pennu cwmpas yr astudiaeth ddichonoldeb yn golygu pennu'r cwestiynau y mae angen i'r astudiaeth eu hateb. Dylai'r rhain fod â ffocws, yn glir ac wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â heriau'r prosiect. Bydd yr atebion yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac yn helpu i lywio camau nesaf y prosiect.

Gallai cwestiynau allweddol gynnwys:

- A yw'r prosiect arfaethedig yn ymarferol yn dechnegol?
- Beth yw'r goblygiadau ariannol?
- Pa ystyriaethau cyfreithiol, rheoleiddiol a chynllunio y mae'n rhaid eu hystyried?
- Pwy yw'r rhanddeiliaid, a sut bydd y prosiect yn effeithio arny'n nhw?
- Beth yw'r risgiau, a sut y gellir eu rheoli?

Gellir mireinio'r cwestiynau hyn i gyd-fynd â chyd-destun ac anghenion penodol y prosiect, gan sicrhau bod yr astudiaeth yn mynd i'r afael â phob maes perthnasol.

Sefydlu Ffiniau (Lleoliad, Gweithgareddau, Cyllideb)

Mae gosod ffiniau clir ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb yn bwysig er mwyn sicrhau bod y prosiect yn parhau i fod â ffocws a bod modd ei reoli. Mae hyn yn golygu diffinio'r cwmpas daearyddol, y gweithgareddau a'r gyllideb.

- **Lleoliad:** Nodwch y ffiniau ffisegol lle bydd y prosiect yn cael ei leoli. A yw wedi'i gyfyngu i un safle neu wedi'i ddsbarthu ar draws nifer o leoliadau?
- **Gweithgareddau:** Amlinellwch yn glir y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth ddichonoldeb. A fydd yr astudiaeth yn

cynnwys asesiadau technegol, ymgynghoriadau cymunedol, modelu ariannol, neu gyfuniad o'r uchod i gyd?

- **Cyllideb:** Pennwch derfynau ariannol yr astudiaeth. Beth yw'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer ymchwil, ffioedd ymgynghorwyr, arolygon, neu gostau eraill?

Pennu'r Allbynnau/Cyflawniadau Gofynnol

Y cam olaf wrth bennu cwmpas yr astudiaeth yw diffinio'r allbynnau a'r cyflawniadau gofynnol. Dyma ganlyniadau diriaethol yr astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Gall allbynnau cyffredin gynnwys:

- **Adroddiad dichonoldeb:** Dogfen gynhwysfawr yn amlinellu canfyddiadau'r astudiaeth, gan gynnwys dadansoddiad technegol ac ariannol, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer bwrw ymlaen â'r prosiect.
- **Rhagamcanion ariannol:** Amcangyfrifon cost manwl, opsiynau cyllido, a rhagolygon refeniw a fydd yn helpu i bennu hyfywedd ariannol y prosiect.
- **Asesiad risg:** Crynodeb o'r risgiau posibl, eu tebygolrwydd, a strategaethau lliniaru a awgrymir i sicrhau llwyddiant hirdymor y prosiect.
- **Dadansoddi rhanddeiliaid:** Map o rhanddeiliaid allweddol, eu dylanwad, a'u heffaith bosibl ar y prosiect, gan gynnwys unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau y mae angen rhoi sylw iddynt.
- **Adolygiad rheoleiddio a chynllunio:** Dealltwriaeth glir o'r caniatadau cynllunio, y cyfyngiadau cyfreithiol a'r rheoliadau amgylcheddol a fydd yn effeithio ar ddatblygiad y prosiect.

Bydd y cyflawniadau yn sicrhau bod yr astudiaeth ddichonoldeb yn rhoi mewnwelediad cynhwysfawr i bob agwedd ar y prosiect, gan ganiatáu i benderfyniadau gwybodus gael eu gwneud.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 3: Aseu Parodrwydd Cymunedol

Mesur Diddordeb a Chapasiti Cymunedol

Bydd aseu parodrwydd cymunedol yn egluro a oes gan y prosiect y gefnogaeth leol angenrheidiol a'r capasiti sefydliadol i lwyddo.

- **Diddordeb Cymunedol:** Gwerthuswch lefel y gefnogaeth a'r diddordeb gan y gymuned. A yw trigolion a rhanddeiliaid allweddol yn frwdfrydig ynghylch y prosiect? Gellir aseu hyn drwy arolygon, grwpiau ffofws, ymgynghoriadau cyhoeddus, neu adborth anffurfiol.
- **Capasiti Sefydliadol:** Ystyriwch a oes gan y sefydliad sy'n arwain y prosiect y gallu i'w reoli a'i gyflawni. A oes gan y sefydliad y sgiliau, yr arbenigedd a'r adnoddau staffio angenrheidiol i ddelio â gofynion y prosiect? Ystyriwch brofiad y sefydliad gyda phrosiectau tebyg, ei allu i reoli adnoddau, a'i hanes blaenorol o gyflawni mentrau llwyddiannus.

Bydd deall brwdfrydedd y gymuned a galluoedd y sefydliad yn helpu i benderfynu a yw'r prosiect yn realistig ac a yw'n debygol o lwyddo.

Adolygu Adroddiadau Presennol

Cyn symud ymlaen, mae'n bwysig adolygu unrhyw ddata neu adroddiadau presennol a all roi mewnwelediad i'r prosiect. Gallai hyn gynnwys data ar anghenion cymunedol,

amodau amgylcheddol, asesiadau technegol, neu ddadansoddiadau ariannol a allai fod wedi cael eu cynnal yn barod.

- **Arolygon ac Adroddiadau Cymunedol:** Chwiliwch am arolygon, adroddiadau neu astudiaethau blaenorol a allai fod wedi aseu anghenion, agweddau neu bryderon lleol ynghylch y prosiect neu'r ardal. Er enghraifft, os yw'r prosiect yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy, efallai y bydd astudiaethau eisoes yn bodoli ar y galw am ynni, dewisiadau technegol, neu'r adnoddau sydd ar gael yn y gymuned.
- **Data Presennol ar Brosiectau Tebyg:** Adolygwch adroddiadau o brosiectau tebyg sydd wedi cael eu rhoi ar waith naill ai yn yr ardal leol neu mewn cymunedau tebyg. Gall yr adroddiadau hyn ddarparu gwersi gwerthfawr ynghylch heriau, arferion gorau a ffactorau llwyddiant allweddol.

Mae casglu a dadansoddi data presennol yn sicrhau bod yr astudiaeth ddichonoldeb yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ac nad oes unrhyw faterion yn cael eu hanwybyddu.

Cydnabod bod "Ddim yn Ddichonadwy" yn Ganlyniad Derbyniol

Rhan bwysig o unrhyw astudiaeth ddichonoldeb yw deall y gallai canfyddiadau'r

astudiaeth ddangos nad yw'r prosiect yn ddichonadwy. Mae'n hanfodol ymdrin â'r astudiaeth ddichonoldeb gyda meddwl agored, yn barod i dderbyn efallai na fydd y prosiect yn hyfyw yn ei ffurf bresennol, neu o gwbl.

- **Canlyniad Ddim yn Ddichonadwy:** Os daw'r astudiaeth ddichonoldeb i'r casgliad na ellir cyflawni'r prosiect yn realistig oherwydd diffyg diddordeb yn y gymuned, diffyg adnoddau, rhwystrau technegol, neu heriau ariannol, dylid ystyried hyn fel mewnwelediad gwerthfawr yn hytrach na methiant. Gall canlyniad "ddim yn ddichonadwy" arbed amser, arian ac ymdrech drwy atal buddsoddiad mewn prosiect afrealistig.
- **Ailasesu a'r Camau Nesaf:** Os penderfynir nad yw'r prosiect yn ddichonadwy, defnyddiwch ganfyddiadau'r astudiaeth i ailasesu nodau, cwmpas neu ddull gweithredu'r prosiect. Efallai y bydd modd mireinio neu ail-lunio'r prosiect i'w wneud yn hyfyw, neu i fynd ar drywydd mentrau eraill sy'n diwallu anghenion y gymuned yn well.

Nod yr astudiaeth ddichonoldeb yn y pen draw yw darparu aseiad realistig a gwybodys ynghylch a yw'r prosiect yn hyfyw. Gall canlyniad negyddol roi eglurder a pharhau i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 4: Mapio Rhanddeiliaid

Nodi Rhanddeiliaid Mewnol ac Allanol

Mae mapio rhanddeiliaid yn gam pwysig i gadarnhau bod gan y prosiect y gefnogaeth sydd ei hangen arno i lwyddo. Mae rhanddeiliaid yn unigolion, yn grwpiau neu'n sefydliadau sydd â buddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y prosiect, ei ganlyniadau, neu ei effeithiau.

- **Rhanddeiliaid Mewnol:** Dyma'r bobl neu'r grwpiau yn y sefydliad sy'n arwain y prosiect. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr prosiect, staff, aelodau bwrdd a gwirfoddolwyr a fydd yn ymwneud â rheoli'r prosiect neu wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.
- **Rhanddeiliaid Allanol:** Mae rhanddeiliaid allanol yn cynnwys unigolion neu grwpiau y tu allan i'r sefydliad y mae'r prosiect yn effeithio arnynt neu sydd â diddordeb yn y prosiect. Gallai hyn gynnwys:
 - Aelodau o'r gymuned leol a allai elwa o'r prosiect neu y gallai'r prosiect effeithio arnynt.
 - Cyrff y llywodraeth, fel awdurdodau cynllunio lleol, asiantaethau amgylcheddol, neu ddarparwyr cyfleustodau.
 - Darpar fuddsoddwyr, cyllidwyr neu bartneriaid a allai ddarparu'r cymorth ariannol neu dechnegol angenrheidiol.
 - Cyflenwyr a fydd yn darparu deunyddiau, gwasanaethau neu gyfarpar.

Dylid ystyried SPEN, fel Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu (DNO), yn rhanddeiliad allanol allweddol mewn prosiectau ynni cymunedol. Mae eu rôl yn cynnwys sicrhau cydymffurfiaid â safonau rhwydwaith ynni lleol a darparu cymorth ar gyfer asesiadau technegol. Bydd ymgysylltu'n gynnar ag SPEN yn helpu i ddeall effaith y prosiect ar y rhwydwaith lleol ac archwilio'r opsiynau cymorth sydd ar gael ar gyfer integreiddio a chyllido.

Nodi Dylanwad ac Effaith

Ar ôl nodi rhanddeiliaid, gellir asesu lefel eu dylanwad a sut y gallai'r prosiect effeithio arnynt. Bydd hyn yn helpu ymdrechion i ymgysylltu ac ymgynghori.

- **Rhanddeiliaid Dylanwadol:** Efallai y bydd gan rai rhanddeiliaid bŵer penderfynu neu ddylanwad sylweddol ar y prosiect. Gall hyn gynnwys rheoleiddwyr y llywodraeth, cyllidwyr, arweinwyr cymunedol, neu bartneriaid allweddol. Mae gan SPEN, fel y DNO, awdurdod dros safonau technegol a gall ddylanwadu ar ymarferoldeb integreiddio'r prosiect i seilwaith y grid lleol. Gall eu mewnbwn siapiau llwybrau technegol a rheoleiddiol y prosiect.
- **Rhanddeiliaid yr effeithir arnynt:** Efallai nad oes gan rhanddeiliaid eraill bŵer i wneud penderfyniadau uniongyrchol ond gallai canlyniadau'r prosiect effeithio arnynt. Gall y rhain gynnwys trigolion lleol, gweithwyr neu grwpiau a allai sylwi ar newidiadau yn eu hamgylchedd neu eu gwasanaethau.

Drwy fapio dylanwad ac effaith, gellir rhagweld gwrthdaro neu gymorth a gellir cynnal dull wedi'i deilwra o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Penderfynu pwy y mae'n rhaid ymgynghori â nhw'n gynnar

Dylid ymgynghori â rhai rhanddeiliaid yn gynnar yn yr astudiaeth ddichonoldeb i sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw, sicrhau eu cefnogaeth ac osgoi oedi.

- **Cyrff Rheoleiddio:** Os oes angen caniatâd cynllunio, adolygiadau amgylcheddol neu gymeradwyaethau eraill ar y prosiect, dylech ymgynghori â'r awdurdodau rheoleiddio perthnasol yn gynnar. Gall hyn helpu i nodi rhwystrau neu ofynion posibl yn gynnar yn y broses, gan osgoi oedi neu gymhlethdodau yn nes ymlaen.
- **Cynrychiolwyr Cymunedol:** Mae ymgysylltu ag arweinwyr lleol, sefydliadau cymunedol neu grwpiau eiriolaeth yn gynnar yn sicrhau bod pryderon y gymuned yn cael eu clywed ac yn cael sylw. Mae hefyd yn meithrin ewyllys da a chefnogaeth i'r prosiect.

- **SPEN:** Byddai angen ymgynghori ag SPEN yn gynnar i asesu gofynion integreiddio rhwydwaith, deall heriau technegol posibl, ac archwilio'r mecanweithiau cymorth sydd ar gael ar gyfer y prosiect. Er y bydd eu rôl yn dibynnu ar natur y prosiect, mae eu cyfraniad yn hanfodol o ran deall gofynion seilwaith a chyllid posibl ar gyfer cydrannau technegol.
- **Cyllidwyr neu Fuddsoddwyr:** Os ydych chi'n chwilio am gyllid allanol, mae'n bwysig cynnwys darpar fuddsoddwyr neu roddwyr yn gynnar er mwyn cysoni disgwyliadau a sicrhau bod y prosiect yn bodloni eu gofynion cyllido.
- **Partneriaid a Chontractwyr:** Os yw'r prosiect yn cynnwys contractwyr neu bartneriaid allanol (e.e. ar gyfer asesiadau technegol, adeiladu, neu gymorth cyfreithiol), dylech eu cynnwys yn gynnar i gael eu mewnbwn ar ddichonoldeb, cost ac amserlen.

Drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid cywir yn gynnar yn y broses, gallwch feithrin ymddiriedaeth a all helpu i symud y prosiect yn ei flaen yn fwy llyfn ac effeithlon.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 5: Pennu Gofynion Dichonoldeb

Cadarnhau a oes angen Dadansoddiadau Technegol, Ariannol, Cymdeithasol a Diwylliannol

Ar y cam hwn, mae'n bwysig nodi'r dadansoddiadau y bydd eu hangen i asesu dichonoldeb y prosiect. Bydd y rhain yn darparu'r sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus a deall hyfywedd posibl y prosiect.

- **Dadansoddiad Technegol:** Mae asesiad technegol yn gwerthuso a oes modd cyflawni'r prosiect gyda'r technolegau a'r seilwaith sydd ar gael. Gallai hyn gynnwys asesu systemau ynni, dulliau adeiladu, neu gydrannau technegol eraill, yn dibynnu ar y prosiect. Er enghraifft, os ydych chi'n ystyried cynhyrchu ynni adnewyddadwy, byddai dadansoddiad technegol yn asesu pa mor addas yw gwahanol dechnolegau ar gyfer y lleoliad penodol.

Ar ben hynny, mae SPEN yn darparu cymorth technegol gwerthfawr ar gyfer prosiectau ynni cymunedol. Bydd ymgysylltu ag SPEN yn gynnar yn helpu i asesu dichonoldeb integreiddio â'r grid, gofynion technegol ar gyfer seilwaith lleol, a chapasiti'r rhwydwaith. Gall SPEN hefyd roi cyngor ar uwchraddio rhwydweithiau angenrheidiol a darparu arweiniad ar sut i fodloni safonau technegol ar gyfer cysylltu â'r grid.

- **Dadansoddiad Ariannol:** Mae asesiad ariannol yn hanfodol er mwyn deall a yw'r prosiect yn economaidd hyfyw. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys amcangyfrifon o gostau, gofynion cyllido, ffrydiau referiw posibl, a risgiau ariannol.
- **Dadansoddiad Cymdeithasol a Diwylliannol:** Mae astudiaeth dichonoldeb cymdeithasol yn canolbwyntio ar barodrwydd y gymuned i dderbyn y prosiect. Mae'n edrych ar sut bydd y prosiect yn effeithio ar drigolion lleol, gweithwyr neu randdeiliaid eraill, ac a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant y gymuned. Mae dadansoddiad diwylliannol yn sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd â gwerthoedd a thraddodiadau'r gymuned leol. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle mae treftadaeth ddiwylliannol neu normau cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau.

Bydd penderfynu pa rai o'r dadansoddiadau hyn sydd eu hangen yn helpu i fireinio cwmpas yr astudiaeth ddichonoldeb a sicrhau bod y prosiect yn cael ei asesu'n briodol.

Nodi unrhyw Gyfyngiadau Cynllunio, Cyfreithiol neu Amgylcheddol

Rhaid i bob prosiect ystyried cyfyngiadau allanol a allai effeithio ar ei ddichonoldeb. Mae deall y rhain yn gynnar yn helpu i osgoi oedi, costau annisgwyl, neu heriau rheoleiddio yn nes ymlaen yn y broses.

- **Cyfyngiadau Cynllunio:** Yn aml, mae angen caniatâd cynllunio gan awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau. Er enghraifft, os yw'r prosiect yn ymwneud ag adeiladu seilwaith neu addasu defnydd tir, rhaid i chi nodi a oes unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd tir neu a yw'r ardal yn ddarostyngedig i reoliadau cynllunio penodol.
- **Cyfyngiadau Cyfreithiol:** Mae ystyriaethau cyfreithiol yn bwysig, o ran perchnogaeth tir, contractau, eiddo deallusol, ac unrhyw gymeradwyaeth reoleiddiol sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect. Bydd deall y rhain yn sicrhau cydymffurfiaeth ac yn atal heriau cyfreithiol.
- **Cyfyngiadau Amgylcheddol:** Mae llawer o brosiectau'n ddarostyngedig i reoliadau amgylcheddol gyda'r nod o warchod adnoddau naturiol. Gallai hyn gynnwys asesiadau o'r effaith amgylcheddol (AEA), trwyddedau ar gyfer allyriadau, neu adolygiadau o fioamrywiaeth leol. Mae deall y cyfyngiadau hyn yn sicrhau nad yw'r prosiect yn gwrthdaro â diogelu'r amgylchedd ac yn helpu i liniaru unrhyw risgiau posibl.

Yn ogystal ag ystyriaethau technegol, mae SPEN yn cynnig cymorth i ddod o hyd i gyfleoedd cyllido ar gyfer cysylltu â'r grid a seilwaith. Drwy ymgynghori ag SPEN yn gynnar yn y broses, gall grwpiau cymunedol ddeall y cymorth ariannol posibl sydd ar gael ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, uwchraddio rhwydweithiau, ac integreiddio â'r grid. Gall hyn gynnwys edrych ar grantiau, cymorthdaliadau neu gymhellion a allai helpu i ariannu datblygiad y prosiect.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 6: Diffinio Meini Prawf Llwyddiant

Cytuno ar sut beth yw llwyddiant

Mae diffinio meini prawf llwyddiant clir yn hanfodol er mwyn arwain y prosiect a gwerthuso ei gynnydd. Dylid diffinio llwyddiant mewn termau mesuradwy, penodol sy'n adlewyrchu nodau a chanlyniadau'r prosiect.

Dechreuwch drwy ofyn:

- **Beth mae llwyddiant yn ei olygu i'r prosiect hwn?**

Gallai llwyddiant gynnwys cwblhau'r prosiect o fewn y gyllideb benodedig, cyrraedd targedau cynhyrchu ynni, creu swyddi, gwella cydnerthedd cymunedol, neu gyflawni canlyniadau amgylcheddol penodol, fel lleihau carbon.

- **Sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur?**

Nodwch ddangosyddion perfformiad allweddol (DPA) a ddefnyddir i olrhain cynnydd. Gallai'r rhain gynnwys nodau ariannol (e.e. enillion ar fuddsoddiad (ROI)), amcanion technegol (e.e. allbwn ynni), neu fesurau cymdeithasol (e.e. boddhad cymunedol).

Nodi pethau y mae'n rhaid eu cael, pethau y mae'n ddymunol eu cael, a phethau tyngedfennol

Ar ôl diffinio llwyddiant, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gwbl angenrheidiol i symud y prosiect yn ei flaen a'r hyn a fyddai'n ddymunol ond nad yw'n hanfodol. Mae hyn yn sicrhau bod blaenoriaethau'n glir.

- **Pethau y mae'n rhaid eu cael:** Dyma'r gofynion na all y prosiect fynd rhagddo hebddynt. Maent yn cynrychioli agweddau'r prosiect nad ydynt yn agored i drafodaeth. Er enghraifft, os mai gosodiad ynni adnewyddadwy yw prosiect, efallai mai'r hyn y mae'n rhaid ei wneud yw sicrhau'r trwyddedau cynllunio angenrheidiol neu gyflawni lefel sylfaenol o allbwn ynni.
- **Pethau y mae'n ddymunol eu cael:** Mae'r rhain yn nodweddion neu'n ganlyniadau dymunol a fyddai'n gwella'r prosiect ond nid ydynt yn hanfodol. Er enghraifft, gallai nodweddion ychwanegol, fel creu mwy o gyfranogiad cymunedol neu osod technoleg ychwanegol, fod yn fuddiol ond nid ydynt yn hanfodol i lwyddiant craidd y prosiect.
- **Pethau tyngedfennol:** Dyma'r ffactorau a fyddai, pe na baent yn cael eu bodloni, yn datgymhwyso'r prosiect neu'n ei wneud yn anymarferol. Er enghraifft, os yw'r rhagamcanion ariannol yn dangos y byddai'r prosiect yn arwain at golledion sylweddol, neu os na ellir sicrhau cymeradwyaeth reoleiddiol allweddol, gellir ystyried hyn yn dyngedfennol.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 7: Casglu Gwybodaeth Gefndir

Casglu Data, Mapiau, Arolygon a Thystiolaeth Berthnasol

Mae casglu ac adolygu'r holl wybodaeth gefndir a fydd yn sail i ddatblygiad y prosiect yn bwysig er mwyn llwyddo. Mae'r wybodaeth hon yn darparu sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn helpu i asesu a yw'r prosiect yn ymarferol. Mae data cywir ar adeiladau, defnydd o ynni ac amodau safleoedd yn caniatáu i systemau gael eu mesur yn gywir, amcangyfrif costau, ac osgoi tybiaethau afrealistig.

- **Data:** Casglwch ddata meintiol ac ansoddol sy'n berthnasol i'r prosiect. Er enghraifft, os ydych chi'n cynllunio prosiect ynni adnewyddadwy, casglwch ddata ar y defnydd o ynni lleol, patrymau galw am ynni, neu amodau'r tywydd.
- **Mapiau:** Casglwch fapiau o'r safle, mapiau parthau, neu fapiau topograffig sy'n rhoi cipolwg ar ddefnydd tir, mynediad ac addasrwydd y safle. Mae'r mapiau hyn yn hanfodol er mwyn deall cyfyngiadau ffisegol a chyfluoedd ar lefel safle.
- **Arolygon:** Gall arolygon ddarparu adborth cymunedol, safbwyntiau rhanddeiliaid, neu asesiadau o'r farchnad. Er enghraifft, gallai arolygon o drigolion lleol neu fusnesau ddatgelu diddordeb mewn cymryd rhan yn y prosiect neu i elwa ohono.
- **Tystiolaeth:** Casglwch unrhyw astudiaethau neu adroddiadau sy'n bodoli eisoes a all roi cipolwg perthnasol ar ddichonoldeb y prosiect. Er enghraifft, gall astudiaethau o'r effaith amgylcheddol, asesiadau technegol, neu astudiaethau dichonoldeb blaenorol ar gyfer prosiectau tebyg gynnig gwybodaeth werthfawr am risgiau posibl ac arferion gorau.

Cadarnhau Manylion y Safle/Perchnogaeth

Bydd deall manylion y safle a statws perchnogaeth yn helpu i asesu a oes modd cynnal y prosiect yn ffisegol. Heb gadarnhau agweddau cyfreithiol a logistaidd y safle, gall yr astudiaeth ddichonoldeb anwybyddu rhwystrau hanfodol.

- **Lleoliad a Nodweddion y Safle:** Sicrhewch fod gan y safle'r nodweddion ffisegol angenrheidiol i gefnogi'r prosiect. Er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu gosod tyrbîn gwynt neu system paneli solar, cadarnhewch fod gan y safle ddigon o le, mynediad ac amodau amgylcheddol priodol.
- **Statws Perchnogaeth:** Gwiriwch berchnogaeth y safle ac a oes gan y prosiect y mynediad cyfreithiol angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys deall a yw'r tir mewn perchnogaeth gyhoeddus neu breifat, a yw'r tîr feddiannwr yn fodlon gwerthu neu brydlesu'r eiddo, neu a yw'r safle'n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol (e.e. hawddfreintiau, cyfamodau cyfyngol).

Casglu Astudiaethau Blaenorol, Cynlluniau, neu Wybodaeth am Gostau/Cyllid

Os ydynt wedi cael eu cynnal, bydd adolygu astudiaethau blaenorol neu adroddiadau sy'n ymwneud â'r prosiect yn rhoi cipolwg hanfodol ar ddichonoldeb y fenter. Mae'r cam hwn yn sicrhau nad yw gwaith blaenorol yn cael ei ddyblygu a bod gwybodaeth bresennol yn cael ei hymgorffori yn yr astudiaeth.

- **Astudiaethau Blaenorol:** Casglwch unrhyw astudiaethau dichonoldeb, asesiadau safle neu adroddiadau amgylcheddol blaenorol. Efallai fod gan y dogfennau hyn atebion i rai o'r cwestiynau a godwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb yn barod, gan arbed amser ac adnoddau.
- **Cynlluniau:** Adolygwch unrhyw gynlluniau datblygu safle presennol neu uwchgynlluniau sy'n berthnasol i'r prosiect. Er enghraifft, gallai cynlluniau adnewyddu trefol, newidiadau mewn parthau, neu fentrau datblygu cymunedol ddylanwadu ar sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â'r cyd-destun datblygu lleol ehangach.
- **Gwybodaeth am Gostau/Cyllid:** Casglwch wybodaeth am amcangyfrif o gostau prosiectau tebyg, yn ogystal â chyfluoedd cyllido sydd wedi cael eu harchwilio neu eu sicrhau. Bydd hyn yn helpu i fireinio'r dadansoddiad ariannol ac yn sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd â'r ffynonellau cyllid sydd ar gael.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb



Cam 8: Cynllunio Cyllideb a Chyllid

Amcangyfrif o Gost yr Astudiaeth Ddichonoldeb

Mae amcangyfrif cywir o'r gost yn bwysig er mwyn sicrhau y gellir cwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb o fewn y gyllideb. Mae amcangyfrif cost yr astudiaeth ddichonoldeb yn golygu nodi'r cydrannau allweddol y bydd angen eu cyflawni.

Ystyriwch y canlynol:

- **Ffioedd Ymgynghorwyr:** Os oes angen ymgynghorwyr neu arbenigwyr allanol ar gyfer asesiadau technegol, ariannol neu reoleiddiol, amcangyfrifwch eu ffioedd ar sail cwmpas y gwaith. Gallai'r rhain gynnwys costau i beirianwyr, penseiri, ymgynghorwyr cyfreithiol, neu ddadansoddwyr ariannol.
- **Arolygon a Chasglu Data:** Os oes angen arolygon safle, arolygon cymunedol, neu asesiadau amgylcheddol ar gyfer yr astudiaeth, dylech gynnwys costau cynnal yr ymchwiliadau hyn. Mae casglu data yn aml yn rhan hanfodol o'r broses ddichonoldeb, yn enwedig ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys seilwaith technegol neu ystyriaethau amgylcheddol.
- **Teithio a Logisteg:** Ystyriwch unrhyw gostau teithio, llety neu logistaidd sy'n gysylltiedig ag ymweliadau safle, ymgynghoriadau cymunedol, neu gyfarfodydd rhanddeiliaid. Dylid cynnwys y costau hyn yn y gyllideb gyffredinol er mwyn osgoi gwariant annisgwyl.
- **Costau Amrywiol:** Dylech gynnwys unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer deunyddiau, trwyddedau neu dreuliau eraill a allai godi yn ystod yr astudiaeth ddichonoldeb.

Drwy amcangyfrif cyfanswm y costau ymlaen llaw, gallwch greu cyllideb realistig a fydd yn arwain holl broses yr astudiaeth ddichonoldeb.

Nodi Ffynonellau Cyllid a Chyfraniadau o Fath Arall

Ar ôl amcangyfrif costau, dylid ymchwilio i ffynonellau cyllid posibl i dalu am yr astudiaeth ddichonoldeb. Gall hyn gynnwys cyfuniad o grantiau, benthyciadau a chyfraniadau o fath arall.

- **Grantiau a Chyllid gan y Llywodraeth:** Edrychwch ar y ffynonellau cyllid sydd ar gael gan y llywodraeth neu'n lleol. Mae llawer o'r rhaglenni hyn yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, yn enwedig ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy neu brosiectau sy'n cael eu gyrru gan y gymuned. Mae Community Energy England, CARES a Hybiau Sero Net Lleol i gyd yn ffynonellau cyllid posibl yn dibynnu ar leoliad y prosiect.
- **Rhoddion neu Fuddsoddiad Preifat:** Nodwch unrhyw fuddsoddwyr preifat, rhoddwyr neu bartneriaid posibl a allai fod yn fodlon ariannu'r astudiaeth, naill ai drwy fuddsoddiad neu roddion uniongyrchol. Gallai hyn gynnwys busnesau lleol neu sefydliadau preifat sydd â diddordeb mewn cefnogi'r prosiect.
- **Cyfraniadau o Fath Arall:** Yn ogystal ag adnoddau ariannol, gall cyfraniadau o fath arall (fel llafur gwirfoddol, deunyddiau a roddwyd, neu wasanaethau proffesiynol a ddarparwyd am ddim) helpu i wrthbwysu rhywfaint o gostau'r astudiaeth. Mae'r cyfraniadau hyn yn arbennig o werthfawr mewn prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned lle mae'r gefnogaeth leol yn gryf. Sicrhewch fod gwerth cyfraniadau o fath arall yn cael ei gofnodi a'i gynnwys yng nghyllideb gyffredinol y prosiect.

Gosod Meini Prawf i Asesu Dyfynbrisiau

Os cyflogir ymgynghorwyr allanol, mae'n bwysig sefydlu meini prawf clir ar gyfer asesu dyfynbrisiau.

Mae hyn yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr a ddewisir yn gymwys a bod yr astudiaeth yn cael ei chwblhau o fewn y gyllideb.

Gallai meini prawf i asesu dyfynbrisiau ymgynghorwyr gynnwys:

- **Profiad ac Arbenigedd:** Aseswch profiad yr ymgynghorydd mewn astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer prosiectau tebyg. Ystyriwch ei hanes blaenorol, yn enwedig gyda phrosiectau o faint neu ffocws tebyg, fel ynni, seilwaith neu ddatblygu cymunedol.
- **Cwmpas y Gwaith a'r Elfennau i'w Cyflawni:** Sicrhewch bod cwmpas arfaethedig y gwaith yn cyfateb i ofynion yr astudiaeth ddichonoldeb. Dylai'r dyfynbris amlinellu'r elfennau penodol i'w cyflawni, yr amserlenni a'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cwblhau.
- **Cost a Gwerth am Arian:** Cymharwch gostau gwahanol ymgynghorwyr i sicrhau eich bod yn cael gwerth am arian. Nid yw hyn bob amser yn golygu dewis y dyfynbris isaf ond yn hytrach sicrhau bod yr ymgynghorydd yn cynnig y cydbwysedd cywir o brofiad, gwasanaeth a phris.
- **Geirdaon a Thystlythyrau:** Gofynnwch am eirdaon neu dystlythyrau gan gleientiaid blaenorol i sicrhau bod gan yr ymgynghorydd allu amlwg i gyflawni'n brydlon ac o fewn y gyllideb. Gall adborth cadarnhaol gan brosiectau blaenorol fod yn arwydd cryf o ddibynadwyedd ac ansawdd.
- **Amserlen ac Argaeledd:** Sicrhewch fod yr ymgynghorydd yn gallu bodloni terfynau amser y prosiect a'i fod ar gael i weithio o fewn yr amserlen ofynnol. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes cyfyngiadau amser llym neu gerrig milltir prosiect y mae'n rhaid eu cyrraedd.

Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 9: Nodi Risgiau a Chyfyngiadau

Rhestru Risgiau a Dibyniaethau Posibl

Mae nodi risgiau a dibyniaethau yn bwysig ar gyfer proses yr astudiaeth ddichonoldeb. Mae deall yr heriau posibl a'r ffactorau allanol a allai effeithio ar y prosiect yn helpu i reoli materion cyn iddynt godi ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio a gwneud penderfyniadau gwell.

Ystyriwch y mathau canlynol o risgiau:

- **Risgiau Technegol:** Y posibilrwydd o fethiant technolegol neu broblemau annisgwyl gyda dyluniad technegol y prosiect. Er enghraifft, os yw'r prosiect yn dibynnu ar dechnolegau newydd neu dechnolegau heb eu profi, efallai y bydd risg o danberfformio neu oedi cyn gweithredu.
- **Risgiau Ariannol:** Y posibilrwydd o gostau'n gor-redeg, diffygion cyllido, neu newidiadau yn hyfywedd ariannol y prosiect. Gallai hyn ddigwydd oherwydd costau annisgwyl, oedi wrth sicrhau cyllid, neu enillion ar fuddsoddiad is na'r disgwyl.
- **Risgiau Gweithredol:** Heriau a allai effeithio ar y gwaith o reoli'r prosiect o ddydd i ddydd. Er enghraifft, gallai problemau gyda staffio, oedi gyda chyflenwyr, neu darfu ar y gadwyn gyflenwi effeithio ar amserlen y prosiect.
- **Risgiau'r Farchnad:** Newidiadau allanol yn y farchnad a allai effeithio ar lwyddiant y prosiect. Gallai hyn gynnwys amrywiadau yn y galw am allbynnau'r prosiect, newidiadau mewn rheoliadau, neu gystadleuaeth gan brosiectau eraill.
- **Risgiau Rhanddeiliaid:** Cynnwys a chydweithrediad rhanddeiliaid allweddol. Er enghraifft, os bydd rhanddeiliaid allweddol (e.e. aelodau o'r gymuned, awdurdodau rheoleiddio, neu fuddsoddwyr) yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl neu'n gohirio penderfyniadau, gallai gael effaith negyddol ar y prosiect.

- **Risgiau Dibyniaeth:** Pan fydd llwyddiant y prosiect yn dibynnu ar ffactorau allanol neu drydydd partion. Er enghraifft, gallai oedi cyn cael cymeradwyaeth reoleiddio, sicrhau trwyddedau, neu gwblhau contractau gyda phartneriaid arafu'r prosiect.

Nodi materion Cyfreithiol, Cynllunio, Amgylcheddol neu Dreftadaeth

Yn ogystal â risgiau cyffredinol, mae'n bwysig nodi unrhyw faterion cyfreithiol, cynllunio, amgylcheddol neu dreftadaeth y gellid eu hystyried yn gyfyngiad ar y prosiect. Gallai'r materion hyn effeithio'n sylweddol ar amserlen, cost neu hyd yn oed hyfywedd y prosiect.

- **Materion Cyfreithiol:** Mae hyn yn cynnwys adolygu contractau, eiddo deallusol, a chytundebau cyfreithiol sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiect. Gallai risgiau cyfreithiol gynnwys heriau i berchnogaeth tir, anghydfodau ynghylch eiddo deallusol, neu faterion sy'n ymwneud â chaniatáu neu drwyddedu.
- **Materion Cynllunio:** Nodwch unrhyw reoliadau cynllunio lleol a allai effeithio ar y prosiect. Er enghraifft, os yw'r prosiect mewn ardal warchoddedig, efallai y bydd cyfyngiadau neu gymeradwyaethau ychwanegol yn berthnasol.
- **Materion Amgylcheddol:** Mae risgiau amgylcheddol yn cynnwys effeithiau posibl ar yr amgylchedd lleol neu'r angen i fodloni rheoliadau amgylcheddol. Er enghraifft, os gallai'r prosiect amharu ar fywyd gwylt neu ecosystemau lleol, efallai y bydd rhwystrau rheoleiddiol ychwanegol, fel y gofyniad am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu fesurau lliniaru.
- **Materion Treftadaeth:** Os yw'r prosiect wedi'i leoli ger safleoedd treftadaeth, tirnodau diwylliannol, neu mewn ardal gadwraeth, efallai y bydd cyfyngiadau ar ddatblygu. Gallai'r ystyriaethau treftadaeth hyn effeithio ar ddyluniad, gweithrediad neu amserlen y prosiect ac efallai y bydd angen ymgynghori ag awdurdodau treftadaeth lleol neu weithredu mesurau arbennig i ddiogelu asedau diwylliannol.



Camau cynnal Astudiaeth Ddichonoldeb

Cam 10: Cynllunio Cyfranogiad, Defnyddio Canfyddiadau ac Ystyriaethau Hirdymor

Penderfynu sut bydd y Gymuned a Rhanddeiliaid yn cael eu Cynnwys

Mae ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau'r rheini y bydd ei ganlyniadau'n effeithio arnynt neu y bydd ganddynt ran yn y canlyniadau.

- **Ymgysylltu â'r Gymuned:** Penderfynwch sut bydd y gymuned leol yn cael ei chynnwys drwy gydol yr astudiaeth ddichonoldeb. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd cymunedol rheolaidd, arolygon, neu grwpiau ffocws i gasglu adborth, mynd i'r afael â phryderon, a meithrin cefnogaeth. Dylai'r broses ymgysylltu fod yn gynhwysol a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, yn enwedig y rheini y gallai'r prosiect effeithio arnynt yn uniongyrchol.
- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Nodwch rhanddeiliaid allweddol, fel awdurdodau lleol, buddsoddwyr neu gyrff rheoleiddio, a phenderfynu sut byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu cynnwys drwy gydol yr astudiaeth. Gallai hyn gynnwys cyfarfodydd un-i-un, pwyllgorau cynghori, neu adroddiadau cynnydd cyfnodol. Mae cyfathrebu parhaus yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a bod eu pryderon yn cael sylw prydol.

Nodi Pwy fydd yn Defnyddio Canfyddiadau'r Astudiaeth a Sut y Byddant yn cael eu Rhannu

Mae deall pwy fydd yn defnyddio canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb yn bwysig er mwyn llunio fformat a lledaeniad yr adroddiad.

- **Prif Ddefnyddwyr:** Nodwch y prif grwpiau neu unigolion a fydd yn dibynnu ar y canfyddiadau i wneud penderfyniadau am ddyfodol y prosiect. Gallai hyn gynnwys rheolwyr prosiect, cyrff cyllido, swyddogion llywodraeth leol, neu arweinwyr cymunedol.

Dylid teilwra canfyddiadau'r astudiaeth i fodloni anghenion y prif ddefnyddwyr hyn, gan ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus.

- **Rhannu Canfyddiadau:** Penderfynwch sut bydd canlyniadau'r astudiaeth yn cael eu cyfleu i gynulleidfa ehangach. Gallai hyn gynnwys gweithdai cyhoeddus, cyflwyniadau cymunedol, neu wefan prosiect. Y nod yw sicrhau bod canfyddiadau'r astudiaeth yn hygyrch ac yn ddealladwy i'r holl bartion perthnasol, gan annog tryloywder ac atebolrwydd.

Drwy gynllunio sut bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu, gallwch sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod y prosiect yn parhau i fod yn agored i fewnbwn gan y gymuned a rhanddeiliaid.

Paratoi ar gyfer Canlyniadau Cadarnhaol neu Negyddol

Gall yr astudiaeth ddichonoldeb arwain at ganfyddiadau cadarnhaol neu negyddol, ac mae'n bwysig bod yn barod ar gyfer y ddwy sefyllfa.

- **Canlyniadau cadarnhaol:** Os bydd yr astudiaeth yn canfod bod y prosiect yn ddichonadwy, amlinellwch y camau nesaf ar gyfer symud ymlaen. Gall hyn gynnwys sicrhau cyllid, cael caniatâd cynllunio, neu symud i gyfnod dylunio a gweithredu'r prosiect.
- **Canlyniadau Negyddol:** Os bydd yr astudiaeth yn canfod nad yw'r prosiect yn ddichonadwy, mae'n bwysig cael cynllun ar gyfer rheoli canlyniadau negyddol. Gallai hyn gynnwys adolygu cwmpas y prosiect, archwilio atebion amgen, neu benderfynu rhoi'r gorau i'r prosiect yn gyfan gwbl.

Mae cael cynllun clir ar gyfer canlyniadau cadarnhaol a negyddol yn sicrhau bod tîm y prosiect yn barod i ddelio ag unrhyw sefyllfa a gwneud penderfyniadau ar sail canfyddiadau'r astudiaeth.

Ystyriaethau ar ôl yr Astudiaeth Ddichonoldeb

Gan edrych y tu hwnt i'r astudiaeth ddichonoldeb, mae'n bwysig ystyried sut bydd y prosiect yn cael ei reoli, ei gynnal a'i weithredu yn y tymor hir.

- **Llywodraethu:** Penderfynwch ar y strwythur llywodraethu a fydd yn goruchwyllo datblygiad y prosiect a'i weithrediadau parhaus. Gallai hyn gynnwys ffurfio pwyllgor llywio'r prosiect, penodi rheolwr prosiect penodol, neu sefydlu model llywodraethu yn y gymuned.
- **Partneriaid:** Nodwch y partneriaid allweddol a fydd yn ymwneud â gweithredu'r prosiect a'i weithrediad yn y tymor hir. Gallai hyn gynnwys awdurdodau lleol, asiantaethau cyllido, partneriaid technegol, neu grwpiau cymunedol.
- **Cyllid:** Ystyriwch sut bydd y prosiect yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hir. Gallai hyn gynnwys cynhyrchu incwm drwy arbedion ynni, gwerthu ynni, neu ddenu cyllid parhaus gan roddwyr neu fuddsoddwyr.
- **Capasiti Adnoddau:** Sicrhewch bod gan y prosiect y capasiti angenrheidiol i barhau unwaith y bydd ar waith. Mae hyn yn cynnwys cael y staff, y seilwaith a'r cynlluniau cynnal a chadw cywir ar waith i sicrhau llwyddiant hirdymor y prosiect.

Mae cynllunio ar gyfer llywodraethu hirdymor, partneriaethau, cynaliadwyedd a chapasiti gweithredu yn sicrhau y bydd y prosiect yn cael y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arno i ffynnu dros amser.

Mae astudiaethau dichonoldeb yn fwyaf effeithiol lle mae bwriad clir a chapasiti i ddefnyddio'r canfyddiadau i lywio'r camau nesaf, boed hynny'n arwain at symud y prosiect yn ei flaen, ei ail-lunio, neu benderfynu peidio â bwrw ymlaen.

Geirfa

Esbonio termau allweddol

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA): Proses ffurfiol a ddefnyddir i asesu effeithiau amgylcheddol posibl datblygiad arfaethedig, lle bo hynny'n ofynnol gan reoliadau.

Asesiad risg: Y broses o nodi ac ystyried risgiau, ansicrwydd a dibyniaethau posibl a allai effeithio ar ddichonoldeb neu'r gallu i gyflawni prosiect.

Caniatâd cynllunio: Cymeradwyaeth ffurfiol sy'n ofynnol gan awdurdod cynllunio cyn y gellir ymgymryd â rhai mathau o ddatblygiadau neu newid defnydd.

Cyfraniadau o Fath Arall: Cymorth anariannol a ddarperir i brosiect, fel amser staff, mewnbwn gwirfoddolwyr, arbenigedd proffesiynol, neu ddefnyddio cyfleusterau.

Cynaliadwyedd: Gallu prosiect i weithredu ac aros yn hyfyw dros amser, gan ystyried effeithiau ariannol, sefydliadol ac ehangach.

Dadansoddiad ariannol: Asesiad o'r costau tebygol, y gofynion cyllido, y risgiau ariannol, a'r canlyniadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â phrosiect.

Dadansoddiad Technegol: Asesiad ynghylch a oes modd cyflawni prosiect gan ddefnyddio'r technolegau, y seilwaith a'r dulliau ymarferol sydd ar gael sy'n briodol i'r safle a'r cyd-destun.

Enillion ar Fuddsoddiad (ROI): Mesur a ddefnyddir i asesu enillion ariannol prosiect mewn perthynas â'i gostau, a fynegir yn aml fel canran.

Ffynonellau cyllid: Y dulliau y gellir eu defnyddio i ariannu astudiaeth neu brosiect dichonoldeb, gan gynnwys grantiau, cyfraniadau, neu fathau eraill o gymorth ariannol.

Hawliau Datblygu a Ganiateir (PDR): Rheolau cynllunio sy'n caniatáu i rai mathau o ddatblygiadau fynd rhagddynt heb gais cynllunio llawn, yn amodol ar amodau a chyfyngiadau penodol.

Llywodraethu: Y trefniadau ar gyfer cyfarwyddo, rheoli a goruchwyllo prosiect, gan gynnwys rolau, cyfrifoldebau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Perchnogaeth tir: Statws cyfreithiol tir neu adeiladau, gan gynnwys pwy sy'n berchen arnynt ac a oes caniatâd i'w defnyddio ar gyfer y prosiect arfaethedig.

Rhanddeiliaid: Unigolion neu sefydliadau sydd â buddiant mewn prosiect, dylanwad dros brosiect neu yr effeithir arnynt o bosibl gan y prosiect, gan gynnwys aelodau o'r gymuned, partneriaid y prosiect, cyllidwyr a chyrff statudol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid: Y broses o gynnwys rhanddeiliaid mewn trafodaethau a phenderfyniadau i lywio'r astudiaeth ddichonoldeb a deall cyfleoedd, pryderon ac effeithiau posibl.

Adnoddau Ychwanegol

Canllawiau eraill ar Astudiaethau Dichonoldeb:

SP Energy Networks (SPEN), Feasibility Support

Canllawiau a gwybodaeth ategol ar gyfer astudiaethau dichonoldeb, gan gynnwys cymhwysedd, cwmpas a disgwyliadau ar gyfer datblygu prosiectau cam cynnar.

spenergynetworks.co.uk/pages/feasibility_support.aspx

Community Energy England, Community Energy Fund – Stage 1 Guidance

Arweinyfr ar adnoddau ynni cymunedol gyda deunyddiau canllaw ar gamau dichonoldeb, cyllid ac ymgysylltu.

communityenergyengland.org/guidance/

Scottish Community Projects Fund, Feasibility Studies: A Guide to Good practice

Cyfres o bynciau i helpu grwpiau cymunedol a'u hymgyngorwyr i hyrwyddo prosiectau cymunedol llwyddiannus.

dtascommunityownership.org.uk/resource/feasibility-studies-guide-good-practice/

Energy Systems Catapult, Public Sector Decarbonisation Guide: Feasibility and Design

Canllawiau ar gyfer cynnal astudiaethau dichonoldeb a dylunio, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol fathau o astudiaethau a sut i sicrhau eu bod yn cefnogi ceisiadau am gyllid.

es.catapult.org.uk/tools-and-labs/public-sector-decarbonisation-guidance/design-and-feasibility/

Forest Research, Biomass Heating: Guide to Feasibility Studies

Mae'n rhoi canllawiau ar sut i asesu addasrwydd safle ar gyfer gwresogi biomas.

cdn.forestresearch.gov.uk/2022/02/fr_bec_guide_feasibility_studies_2011.pdf

Cefnogaeth gymunedol SP Energy Networks

Canllaw byr ar Astudiaethau Dichonoldeb

Canllaw lefel uchel ar astudiaethau
dichonoldeb ar gyfer grwpiau ynni cymunedol.